



Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

Ministry of
JUSTICE

Trawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc

Rhoi lle amlwg i addysg mewn
caethiwed

Chwefror 2013

Papur Ymgynghori CP4/2013

Dyddiad dechrau'r ymgynghoriad: 14 Chwefror 2013

Dyddiad cau'r ymgynghoriad: 30 Ebrill 2013



Trawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc

Rhoi lle amlwg i addysg mewn caethiwed

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros
Gyfiawnder Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2013

© Hawlfraint y Goron 2013

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn TransformingYouthCustody@justice.gsi.gov.uk

Mae modd llwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101856423

Argraffwyd yn y DU ar gyfer Y Llyfrfa Cyf
ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 2541033 02/13

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Contents

1. Y cwestiynau ymgynghori yn y ddogfen hon	3
2. Rhagair gan y Gweinidog	4
3. Gwybodaeth allweddol am bobl ifanc mewn caethiwed	7
4. Yr achos dros newid	14
5. Ein gweledigaeth ar gyfer diwygio	19
6. Helpu i gyflawni ein gweledigaeth	30
7. Cwestiynau'r ymgynghoriad	32
Dogfennau Cyfeirio	35

1. Y cwestiynau ymgynghori yn y ddogfen hon

- At:** Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn staff a phobl ifanc mewn sefydliadau sy'n cadw pobl ifanc yn gaeth, darparwyr gwasanaeth ym maes cyfiawnder, addysg, caethiwed a diogelwch, iechyd, gwasanaethau plant a'r gwasanaethau cymdeithasol ehangach, y farnwriaeth, mudiadau gwirfoddol a chymunedol, a phawb sydd â diddordeb mewn pobl ifanc. Rydym hefyd yn gwahodd aelodau'r cyhoedd i ymateb.
- Cwestiynau:** Mae cwestiynau'r ymgynghoriad (yn nhrefn llythrennau 'a' i 'y') yn ymddangos mewn blychau testun hwnt ac yma ym Mhennod 5 ('Ein gweledigaeth ar gyfer diwygio') ac maent wedi'u rhestru'n gyflawn ym Mhennod 7 ('Cwestiynau'r ymgynghoriad').
- Hyd:** 14 Chwefror i 30 Ebrill 2013.
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) at:** TransformingYouthCustody@justice.gsi.gov.uk
Transforming Youth Custody consultation / Ymgynghoriad Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc
Ministry of Justice
8.19, 102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
020 3334 5393
- Sut mae ymateb:** Dylid cyflwyno ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-youth-custody>
Caiff sawl digwyddiad ymgynghori ei gynnal hefyd. Bydd manylion y rhain yn ymddangos yn y cyfeiriad gwe a roddir uchod.
Gellir cyflwyno ymatebion a chynigion amlinellol i'r manylion cyswllt 'Ymholiadau' uchod.
- Papur ymateb:** Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn: <http://www.justice.gov.uk>

2. Rhagair gan y Gweinidog



1. O dan y Llywodraeth hon, mae troseddu yn gyffredinol wedi gostwng ac mae troseddu gan bobl ifanc wedi gostwng hefyd. Mae nifer y bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ar ei lefel isaf am dros ddegawd. Rhoddwn deyrnged i waith yr heddlu, Timau Troseddwy'r Ifanc, a gweithwyr proffesiynol ymroddedig eraill sydd oll wedi cyfrannu at gyflawni hyn. Fodd bynnag, mae yna gnewyllyn o droseddwy'r difrifol a chyson, lawer ohonynt â hanes hir hyd eu breichiau o droseddu er eu bod yn dal yn ifanc. Yn ôl yr amcangyfrifon, awgrymir bod bron traean o'r holl droseddau gan bobl ifanc yn cael eu cyflawni gan 5% o droseddwy'r. Ac ar hyn o bryd, ar gyfer y cnewyllyn hwn, nid yw dedfryd o gaethiwed yn rhoi terfyn ar eu hymddygiad troseddol. Mae 7 ym mhob 10 unigolyn ifanc a gaiff ei ryddhau o gaethiwed yn mynd ymlaen unwaith eto i dorri'r gyfraith mewn llai na 12 mis. Mae'n amlwg, er gwaethaf ymdrech ac ymrwymiad y rheini sy'n gweithio yn yr ystâd ddiogel i bobl ifanc, nad yw'r system yn gallu helpu'r bobl ifanc hyn i droi dalen newydd, ac mae angen i ni wneud pethau'n wahanol.
2. Ac i wneud pethau'n waeth, rydym hefyd yn gwario symiau enfawr o arian yn cyflawni'r canlyniadau gwael hyn. Mewn rhai achosion, mae llefydd yn yr ystâd ddiogel yn costio dros £200,000 y flwyddyn – pum gwaith yn fwy nag anfon plentyn i un o'r ysgolion preswyl preifat gorau. Pan fyddwn yn gweld llawer o'r un wynebau ifanc hyn yn dod yn ôl i'r giât ymhen mis neu ddau, rydym yn sylweddoli na all y lefel hon o wariant barhau. Rydym yn credu, drwy ddefnyddio arloesedd a dychymyg, y gellir lleihau'r costau a gwella'r canlyniadau i gymdeithas ac i'r troseddwy'r ifanc eu hunain.
3. Mae addysg yn allweddol i'n gweledigaeth. Rydym am weld Colegau Diogel yn cael eu sefydlu i ddarparu addysg yn ystod y cyfnod mewn caethiwed, yn hytrach na bod rhywun yn cael ei gadw'n gaeth a bod yr addysg yn cael ei hystyried yn eilbeth. Mae troseddwy'r ifanc yn aml yn

byw bywydau cythryblus ac yn wynebu problemau cymhleth, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, llety anaddas a materion emosiynol neu iechyd meddwl. Mae lefelau llythrennedd yn annerbyniol o isel ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu heithrio o'r ysgol yn y gorffennol. Yn ystod y cyfnod mewn caethiwed, mae cyfle i roi terfyn ar yr anrhefn hon, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau niferus a wynebir gan y plant hyn, ac i osod ffiniau sydd yn aml iawn yn beth newydd iddynt. Ond nid yw hynny'n ddigon. Trwy addysg yn unig y bydd troseddwr ifanc yn ennill cymwysterau a sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn ogystal â dod i ddeall pwysigrwydd cyfrifoldeb fel unigolyn, hunanddisgyblaeth a hunan-barch. Y pethau hyn a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan yn adeiladol mewn cymdeithas ac i fyw bywyd sy'n parchu'r gyfraith. Dylai pob person ifanc gael addysg o ansawdd uchel sy'n rhoi'r cyfle gorau iddynt i lwyddo. Mae hyn yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, ar gyfer y rheini sydd wedi dechrau i lawr y llwybr anghywir ac wedi cael eu rhoi mewn caethiwed.

4. Drwy roi lle amlwg i addysg mewn trefniadau caethiwed pobl ifanc, mae llawer y gallwn ddysgu o gynlluniau diwygio addysg ehangach y Llywodraeth. Mae'r rhaglen Ysgolion Rhydd wedi caniatáu ar gyfer amrywiaeth eang o ddulliau gweithredu arloesol sydd wedi'u teilwra'n arbennig. Yr arbenigedd a'r arloesedd hwn, o ran gwella canlyniadau i bobl ifanc, y mae angen i ni eu cyflwyno i drefniadau caethiwed pobl ifanc.
5. Rydym hefyd yn benderfynol, ar ôl rhoi troseddwr ifanc yn ôl ar y llwybr cywir yn ystod eu cyfnod mewn caethiwed, ein bod yn sicrhau eu bod yn aros ar y llwybr cywir ar ôl cael eu rhyddhau. Felly, mae'n hanfodol bod yr hyn sy'n digwydd pan fyddant yn cael eu cadw'n gaeth yn cael ei gysylltu'n fwy effeithiol â'r hyn sy'n digwydd yn y gymuned, ac yn benodol ein bod yn meddwl o'r newydd am y cyfnod pontio rhwng bod mewn caethiwed a bywyd bob dydd.
6. Gyda nifer o gontractau'n dirwyn i ben yn y dyfodol agos, mae gennym gyfle prin i edrych o'r newydd ar y system gyfan. Rhaid i'r cynigion diwygio fod yn gredadwy ac yn fforddiadwy, ond rydym yn hyderus nad yw hynny'n rhwystr rhag syniadau beiddgar a dychmygus ar gyfer newid.
7. Rydym yn awyddus i ymgysylltu â'r amrediad ehangaf o bobl: darparwyr ym maes addysg, yn y gwasanaethau ieuenctid, y rheini sy'n newydd i'r sector, yn ogystal â'r rheini sy'n gweithio yn yr ystâd nawr ac sy'n gwybod sut y gellid ei wella. Yn y Papur Gwyrdd hwn, rydym yn eich gwahodd i gyflwyno sylwadau arloesol a fydd yn rhoi gwell gwerth i'r trethdalwr, yn lleihau aildroseddu, ac yn rhoi troseddwr ifanc ar y llwybr i fywyd gwell.
8. Edrychwn ymlaen at glywed eich barn

The image shows two handwritten signatures in black ink. On the left is the signature of Chris Grayling, which is a stylized, cursive 'CG'. On the right is the signature of Michael Gove, which is a more formal cursive script. A horizontal line is drawn between the two signatures, starting from the end of the Grayling signature and ending at the beginning of the Gove signature.

Chris Grayling


Yr Arglwydd Ganghellor a'r
Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Michael Gove

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg

3. Gwybodaeth allweddol am bobl ifanc mewn caethiwed

9. Mae'n briodol bod pobl ifanc sy'n cyflawni troseddau dro ar ôl tro a throseddau difrifol yn cael eu dedfrydu i gyfnod mewn caethiwed. Ceir hefyd amgylchiadau lle mae'n iawn i gadw pobl ifanc ar remand yn ddiogel. Yn y 12 mis i fis Mehefin 2012, roedd 3,645 o droseddwyr ifanc (7% o'r rhai a ddedfrydwyd) wedi cael dedfryd o gaethiwed. Mae troseddau'n gyffredinol¹ a throseddau y gellir eu profi mai pobl ifanc a'u cyflawnwyd ill dau wedi gostwng, ac mae nifer y bobl ifanc mewn caethiwed wedi bod yn gostwng wrth i lai o bobl ifanc ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.² Yn 2011/12, nifer cyfartalog y bobl ifanc a oedd mewn caethiwed (gan gynnwys y rheini ar remand) oedd 1,963, a rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2012 roedd wedi gostwng i 1,671.




10. Rhaid i ystâd y sefydliadau caethiwed lle cedwir y bobl ifanc hynny ddarparu ar gyfer pob person ifanc rhwng 10 ac 17 oed sydd wedi cael eu dedfrydu i gaethiwed. Rhaid iddynt felly ddarparu ar gyfer ystod oedran a hyd dedfrydau gwahanol, yn ogystal ag unigolion â phroblemau cymhleth. Ochr yn ochr â throseddwyr ifanc sydd wedi'u dedfrydu, mae ystâd y sefydliadau caethiwed hefyd yn darparu ar gyfer nifer sylweddol o bobl sy'n cael eu cadw ar remand wrth ddisgwyl treial neu ddedfryd, a bydd llawer ohonynt ddim ond yn cael eu cadw'n gaeth am gyfnod byr o amser.
11. Mae rhan fwyaf y rheini sy'n cael eu dedfrydu'n cael Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (DTO), lle byddant yn treulio hanner yr amser mewn caethiwed a'r hanner arall yn y gymuned o dan oruchwyliaeth Tîm Troseddwyr Ifanc

aml-asiantaeth. Gall Gorchymyn Cadw a Hyfforddi bara am ddwy flynedd ar y mwyaf. Roedd tua 58% o'r holl bobl ifanc mewn caethiwed yn 2011/12 yn cwblhau Gorchymyn Cadw a Hyfforddi.

12. Mae dedfrydau hirach na dwy flynedd yn cael eu rhoi i bobl ifanc rhwng 10 a 17 oed sy'n cyflawni troseddau difrifol iawn.ⁱ Mae tua 18% o bobl ifanc sydd mewn caethiwed yn cwblhau dedfryd tymor hir.

Dadansoddiad o boblogaeth 2011/12 yr ystad ddiogel, fesul sail gyfreithiol ar gyfer cadw (gan gynnwys cyfnod cyfartalog mewn caethiwed 2011/2012)



13. Caiff llefydd mewn caethiwed ar gyfer y rheini o dan 18 oed eu comisiynu gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, sydd hefyd yn rhoi pobl ifanc mewn caethiwed ac yn goruchwyllo Timau Troseddwy'r Ifanc awdurdodau lleol.

14. Mae tri sector yn yr ystâd ddiogel bresennol i bobl ifanc: Cartrefi Diogel i Blant, Canolfannau Hyfforddi Diogel, a Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc o dan 18 oedⁱⁱ. Ceir rhai gwahaniaethau sylweddol rhwng y tri sector hyn o sefydliadau caethiwed pobl ifanc, o ran y drefn a'r costau, ac eto mae cyfraddau aildroseddu ar ôl rhyddhau yn wael ar gyfer pob un ohonynt.

ⁱ Y rheini a ddedfrydwyd o dan adrannau 90 a 91 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 ac adran 226B o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, yr olaf yn cael ei diwygio gan adrannau 123 ac 124 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012.

ⁱⁱ Bydd pob cyfeiriad arall yn y ddogfen hon at Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc yn golygu Sefydliadau i'r rheini dan 18 oed. Ceir hefyd Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc sy'n derbyn troseddwy'r rhwng 18 a 21 oed.

Sectorau presennol yr ystâd ddiogel i bobl ifanc

Sefydliadau Troseddwy Ifanc (STI):

- Mae rhwng 40-440 gwely mewn STI, ac fel arfer maent wedi'u rhannu'n unedau llai gyda 30-60 gwely.
- Darparu llety i fechgyn 15-17 oed a rhai merched 17 oed.
- Ar hyn o bryd mae 11 yng Nghymru a Lloegr, wyth i fechgyn a thair uned fach i ferched. Gwasanaeth Carchardai EM sy'n rhedeg naw ohonynt a chontractwyr preifat yn rhedeg y ddau arall.
- Mae STI yn darparu 15 awr o addysg yr wythnos (yn ogystal â 10 awr o weithgarwch pwrpasol).
- Cost gyfartalog un lle fesul blwyddyn yw £65,000.
- Cyfradd aildroseddu o 73%.


Canolfannau Hyfforddi Diogel (CHD):

- Cyfleuster wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer cadw pobl ifanc rhwng 12-17 oed yn gaeth.
- 58-87 gwely wedi'u rhannu'n flociau bach i ddal 5-8 o bobl ifanc.
- Ar hyn o bryd mae 4 CHD, bob un ohonynt yn cael eu rhedeg gan gontractwyr preifat.
- Mae CHD yn darparu 25 awr o addysg yr wythnos.
- Cost gyfartalog un lle fesul blwyddyn yw £178,000.
- Cyfradd aildroseddu o 70%.

Cartrefi Diogel i Blant (CDB):

- Cyfleusterau llai sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol gyda rhwng 8-40 gwely.
- Yn darparu ar gyfer y rheini rhwng 10-17 oed, gan gynnwys rhai o'r ifancaf a mwyaf agored i niwed.
- Gallant hefyd ddarparu llety i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol os yw'r llysoedd wedi awdurdodi eu dal am resymau lles.
- Yn darparu 30 awr o addysg yr wythnos.
- Cost gyfartalog un lle fesul blwyddyn yw £212,000.
- Cyfradd aildroseddu o 76%.

Trawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc




15. Yn aml, mae gan bobl ifanc mewn caethiwed gefndir trwblus, gan gynnwys hanes o fod yng ngofal awdurdod lleol, rhieni absennol, anghenion iechyd meddwl, bylchau mewn addysg, a hunan-niweidio mewn rhai achosion (gweler y manylion isod).

Proffil y bobl ifanc mewn caethiwed

Yn 2011/12:²

- **Oedran** – Roedd 96% o'r bobl ifanc mewn caethiwed rhwng 15-17 oed, gyda dim ond 4% rhwng 10-14 oed. Roedd pobl ifanc 17 oed yn cyfrif am dros hanner y boblogaeth o bobl ifanc mewn caethiwed.
- **Rhyw** – Bechgyn oedd 94% o'r holl bobl ifanc mewn caethiwed, sy'n golygu mai 6% yn unig oedd yn ferched.
- **Ethnigrwydd** – Roedd pobl ifanc ddu a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 29% o'r boblogaeth o bobl ifanc mewn caethiwed.
- **Hanes troseddol** – Roedd 11 neu ragor o droseddau blaenorol³ gan ychydig dros hanner y bobl ifanc a gafodd eu rhyddhau o ddedfryd o gaethiwed yn 2010/11

Cyfartaledd y boblogaeth o dan 18 mewn caethiwed 2011/12 yn ôl y mathⁱⁱⁱ o drosedd ac oed



ⁱⁱⁱ Ar gyfer y prif trosedd.

^{iv} Y troseddau a gaiff eu grwpio o dan 'troseddau eraill' yw cynnau tan yn fwriadol, torri mechniaeth, torri rhyddhad amodol, difrod troseddol, achosi marwolaeth neu anaf drwy yrru'n beryglus, twyll a ffugio, troseddau moduro, bwrgheriaeth annomestig, troseddau'r drefn gyhoeddus, troseddau sydd wedi'u gwaethgu ar sail hil, dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn, dwyn/cymryd cerbyd yn anghyfreithlon, a throseddau anhysbys ac eraill.

^v Mae torri gorchymyn statudol yn golygu trosedd o fethu â chydymffurfio â gofynion gorchymyn statudol presennol heb reswm rhesymol. Bydd y trosedd hwn ddim ond yn cyfrif ar ôl gallu profi'r methiant i'r llys a bod y gorchymyn gwreiddiol wedi'i ddiddymu a/neu bod gorchymyn ychwanegol neu bod penderfyniad arall wedi'i osod.

Addysg

- Aseswyd bod gan hanner y bobl ifanc 15-17 oed sy'n mynd i STI y sector cyhoeddus **lefelau llythrennedd sy'n gyfystyr â'r hyn a ddisgwylir gan blentyn 7-11 oed.**⁴
- O'r bobl ifanc a ddedfrydwyd i gaethiwed, roedd gan 18% ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, o'i gymharu â 3% yn y boblogaeth gyffredinol.⁵
- O'r rheini rhwng 15-17 oed mewn STI, roedd 88% o'r dynion ifanc a 74% o'r merched ifanc wedi cael eu **heithrio o'r ysgol** ar ryw adeg.⁶
- O'r rheini rhwng 15-17 oed mewn STI, roedd 36% o'r dynion ifanc a 41% o'r merched ifanc **o dan 14 oed pan aethant i'r ysgol ddiwethaf.**⁶
- Mae ymchwil yn awgrymu bod anabledd dysgu gyffredinol yn fwy cyffredin ymysg pobl ifanc mewn caethiwed, gyda rhyw 23-32% o'i gymharu â 2-4% yn y boblogaeth gyffredinol.⁷

Iechyd

- Canfu arolwg yn 2011/12 o bobl ifanc 15-17 oed mewn STI fod 27% o'r dynion ifanc mewn caethiwed yn teimlo bod ganddynt broblemau **emosiynol neu iechyd meddwl.**⁶
- Roedd tua un ym mhob pump o bobl ifanc a ddedfrydwyd i gaethiwed wedi ceisio **niweidio eu hunain** ar ryw adeg yn eu bywyd (o'i gymharu â 7% o'r boblogaeth gyffredinol), ac roedd tua un ym mhob deg wedi ceisio cyflawni hunanladdiad ar ryw adeg yn eu bywyd.⁵
- Mae adolygiad diweddar yn awgrymu bod **niferoedd yr achosion o anhwylderau niwro-ddatblygol (e.e. dyslecsia, anhwylderau cyfathrebu ac epilepsi)** ymysg pobl ifanc mewn caethiwed yn uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol o bobl ifanc.⁷
- Mae gan bobl ifanc mewn caethiwed **lefelau eithriadol o uchel o ddefnyddio sylweddau.** Mewn astudiaeth hunan-adrodd o tua 500 o fechgyn a merched rhwng 12-18 oed, roedd eu defnydd o dobaco, alcohol a chyffuriau yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y boblogaeth gyffredinol.⁸ Cannabis oedd y cyffur mwyaf cyffredin o bell ffordd, yna ecstasi a chocên.⁹

Cefndiroedd cymhleth

- Canfu arolwg yn 2011/12 o bobl ifanc 15-17 oed mewn STI fod 30% o'r dynion ifanc a 44% o'r merched ifanc yn dweud eu bod wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol ar ryw adeg.⁶
- Roedd astudiaeth i gefndir ac amgylchiadau 200 o bobl ifanc a ddedfrydwyd yn yr ystâd ddiogel wedi canfod bod:⁵
 - y tad yn absennol ymhlith 76% o bobl ifanc a'r fam yn absennol ymhlith 33% ohonynt;
 - 51% o bobl ifanc mewn caethiwed yn dod o **lety anaddas neu ddifreintiedig**; a bod
 - 39% wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant neu wedi profi camdriniaeth neu esgeulustod.

Addysg mewn caethiwed

16. Mae gan lawer o bobl ifanc a ddedfrydwyd i gaethiwed record wael o ymgysylltu ag addysg a chyflawniad addysgol, yn ogystal â lefelau isel o sgiliau sylfaenol.^{4,6} Efallai bod rhai o'r bobl ifanc mewn caethiwed wedi cyflawni'n llawer uwch na'r lefelau sgiliau sylfaenol ac mae angen iddynt, ac maent yn dymuno parhau â'u haddysg academiaidd yn ystod eu cyfnod mewn caethiwed. Canfu arolwg yn 2011/12 o ddynion ifanc 15-18 oed yn y

carchar fod bron dwy ran o dair ohonynt a oedd yn derbyn addysg yn y carchar yn teimlo y byddai eu haddysg yn eu helpu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Yn ogystal â hynny, roedd dros hanner y dynion ifanc a lenwodd yr arolwg yn dweud eu bod yn bwriadu mynd yn ôl i addysg neu hyfforddiant ar ôl cael eu rhyddhau.⁶

17. Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael addysg effeithiol yn ystod eu cyfnod mewn caethiwed, dylai sefydliadau eisoes fod yn cynnal asesiadau addysgol cychwynnol o lythrennedd, rhifedd ac unrhyw anghenion dysgu penodol. Dylai hyn ddigwydd cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gyrraedd. Dylid cael gwybodaeth gan yr ysgolion, y gwasanaethau cymunedol a'r Timau Troseddwyr Ifanc sydd wedi gweithio gyda'r person ifanc yn flaenorol. Yn dilyn yr asesiad hwn, dylai darparwyr sefydliadau caethiwed ddatblygu cynllun dysgu i sicrhau bod y person ifanc, yn ystod ei gyfnod mewn caethiwed, yn cael budd o'r addysg a'r hyfforddiant a luniwyd i ddiwallu ei anghenion penodol.

4. Yr achos dros newid

Lleihau aildroseddu

18. Prif nod y system cyfiawnder ieuencid yw atal aildroseddu gan blant a phobl ifanc, a dylai gyflawni hyn drwy gyfrwng cyfuniad o ymyriadau ataliol cynnar, cosb i'r rheini sy'n torri'r gyfraith, ac adsefydlu er mwyn cael troseddwr ifanc yn ôl ar y llwybr cywir.
19. Mae rhaglen ddiwygio sylweddol ar draws y Llywodraeth yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc yn cael addysg o ansawdd uchel, bod y teuluoedd mwyaf trwblus yn cael cymorth i weddnewid eu bywydau, bod plant sy'n derbyn gofal yn cael cartrefi parhaol gyda theuluoedd cariadus os mai dyna sydd orau iddynt, a bod rhieni'n cael help llaw ac yn cael eu hannog i fyw bywyd cynhyrchiol a bod yn fodolau rôl i'w plant.
20. Pan fydd pobl ifanc yn cyflawni trosedd, bydd y system cyfiawnder ieuencid yn ceisio atal hynny rhag dwysáu drwy gyfrwng ymyriad cadarn gan yr heddlu a Thimau Troseddwr Ifanc aml-ddisgyblaethol.
21. O'i gymharu ag unrhyw gyfnod arall yn y ddegawd ddiwethaf, mae'n galonogol bod nifer sylweddol llai o blant yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a bod llai yn cael eu rhoi mewn caethiwed. Mae gwaith Timau Troseddwr Ifanc, sydd wedi'u hymwreiddio mewn cymunedau lleol, wedi chwarae rôl bwysig i gyflawni'r canlyniadau hyn.
22. Fodd bynnag, mae'r system yn methu o safbwynt y bobl ifanc hynny sydd yn torri'r gyfraith ac yn cael eu hunain mewn caethiwed. Mae 73% o droseddwr ifanc yn aildroseddu cyn pen 12 mis ar ôl cael eu rhyddhau. Mae hyn yn annerbyniol o uchel, a dyma'r lefelau gwaethaf yn yr holl system cyfiawnder troseddol. Mae'n awgrymu bod y mwyafrif helaeth o'r rheini mewn sefydliadau caethiwed pobl ifanc eisoes ar drywydd oes o droseddu, ac ar hyn o bryd, nid yw cyfnod mewn caethiwed yn cael prin ddim effaith neu ddim effaith o gwbl ar y tebygolrwydd y byddant yn torri'r gyfraith eto. Mae'n rhaid newid hyn.
23. Mae cnewyllyn bach o ad-droseddwr yn cyflawni'r rhan fwyaf o droseddau y gellir profi mai pobl ifanc sydd wedi'u cyflawni. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn amcangyfrif bod tua 5% o droseddwr ifanc yn gyfrifol am bron traean o'r troseddau y gellir eu profi.¹⁰ Mae'r troseddwr ifanc mynych hyn yn achosi niwed difrifol i gymdogaethau a chymunedau, ac maent yn debygol iawn o ddod yn droseddwr hyn yfory. Rhaid i ni roi terfyn ar y cylch dieflig hwn o droseddu drwy sicrhau bod y cyfnod y mae pobl ifanc yn cael eu cadw'n gaeth yn gyfle i weddnewid eu bywyd, a bod y cynnydd a wneir mewn caethiwed yn parhau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau fel nad ydynt yn mynd yn ôl at dorri'r gyfraith.

24. Mae'r bechgyn a'r merched ifanc hyn mewn caethiwed yn rhai o'r unigolion mwyaf cymhleth ac sydd wedi ymddieithrio fwyaf mewn cymdeithas,^{vi} ac mae eu hymddygiad yn aml wedi hen ymwreiddio er gwaethaf gwaith caled rhai o'r ymarferwyr ymroddedig. Ond nid yw hynny'n esgus, iddyn nhw nac i'r system cyfiawnder ieuencid, rhag gwneud yn well. Mae'n bosib bod cyfnod mewn caethiwed yn gyfnod prin o sefydlogrwydd mewn bywyd sydd fel arfer yn gythryblus, ac felly mae'n gyfle allweddol i roi'r bobl ifanc hyn ar lwybr arall. Dyma amser y gellid ac y dylid ei ddefnyddio i'w rhoi ar lwybr i fywyd gwell, gan gyfuno'r addysg a'r cymorth ehangach sy'n ysgogi, yn herio ac yn cyflawni canlyniadau gyda phobl ifanc, ac y gellir ei barhau ac adeiladu arno ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Canolbwyntio ar wella addysg

25. Mae rhan fwyaf y bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth wedi cael eu heithrio o'r ysgol ar ryw adeg⁶ ac mae gan tua hanner y rhai sy'n cael eu derbyn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc lefelau llythrennedd neu rifedd ymhell o dan y safon sy'n ddisgwyliedig gan bobl ifanc o'u hoedran⁴. Mae rhai pobl ifanc mewn caethiwed hefyd yn dangos diffyg ymdeimlad o gyfrifoldeb personol, hunan-barch a hunanddisgyblaeth, ac efallai eu bod yn ei chael yn anodd rhyngweithio'n adeiladol ag eraill.

26. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod addysg yn ganolog i ateb y broblem hon. Mae lefelau isel o gyflawniad ac ymgysylltiad addysgol yn gysylltiedig â risg uwch o droseddu¹² a phroblemau cymdeithasol ehangach.^{13,14} Gall addysg a hyfforddiant fod yn gyfrwng i roi cymwysterau a sgiliau iddynt ar gyfer cyflogaeth, i ddeall pwysigrwydd cyfrifoldeb personol ac i feithrin hunan-barch. Mae'r rhain i gyd yn galluogi person ifanc i ymgysylltu'n adeiladol â chymdeithas a byw bywyd gan barchu'r gyfraith.¹³ Heb hyn, go brin y bydd ganddynt ddyfodol dechau i edrych ymlaen ato. Dylai pob un person ifanc gael addysg o ansawdd uchel sy'n rhoi'r siawns orau iddynt i lwyddo, ac mae hyn yr un mor allweddol ar gyfer y rheini sydd wedi dechrau ar y llwybr anghywir ac wedi cael eu dedfrydu i gaethiwed.

27. Ar hyn o bryd, mae'r addysg yn amrywio ar draws y gwahanol fathau o sefydliadau yn yr ystâd ddiogel i bobl ifanc, ac mae'r ansawdd yn anghyson. Yn aml, nid yw'r bobl ifanc yn cael yr oriau gofynnol o addysg. Mae'n bosib bod y rhesymau dros hyn yn gymhleth, ond rhaid i addysg fod yn flaenoriaeth. Gwyddom hefyd nad yw prosesau asesu anghenion na rhannu gwybodaeth yn gweithio'n effeithiol ym mhob man. Nododd adroddiad gan Ofsted¹⁵ nad oed asesiadau risg y bobl ifanc yn cynnwys digon o wybodaeth am ddysgu a chyflawniad ac nad oeddent yn cofnodi gwybodaeth gywir am bobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae sawl sefydliad wedi sôn am yr anhawster o gael y dogfennau angenrheidiol gan awdurdodau lleol, ysgolion, gwasanaethau iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill. Weithiau, nid yw'r ddogfennaeth hon yn bodoli o gwbl.

^{vi} Fel a welir yn y blwch 'Proffil y bobl ifanc mewn caethiwed'.

28. Mae'r Bil Plant a Theuluoedd, sy'n cael ei ystyried gan y Senedd ar hyn o bryd, yn cynnwys darpariaeth i gyflwyno Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer pobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae'r darpariaethau hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a Thimau Troseddwyr Ifanc i weithio gyda'i gilydd wrth asesu anghenion troseddwyr ifanc gydag anghenion addysgol arbennig. Golyga hyn y bydd Timau Troseddwyr Ifanc yn cael eu cynnwys pan fydd awdurdodau lleol yn llunio Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod mewn caethiwed. Bydd y darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn haws i rannu gwybodaeth pan fydd person ifanc yn cael ei roi mewn caethiwed.
29. Yn gyffredinol, nid oes digon o gydweithio rhwng gwasanaethau addysg a systemau mewn sefydliadau caethiwed, yn ogystal â rhwng y sefydliadau caethiwed a'r gymuned. O ganlyniad, caiff amser ei wastraffu a cholli cyfleoedd i wneud cynnydd.
30. Dylai pobl ifanc fod yn gadael caethiwed gyda lleoliad wedi'i sicrhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, ond mae arolwg yn dangos bod dwy ran o dair ohonynt yn gadael heb unrhyw leoliad o'r fath, ac o'r rheini sydd wedi cael lleoliad, dim ond hanner sydd dal mewn cysylltiad ag ef ar ôl mis.¹⁶ I fynd i'r afael â hyn, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cynlluniau i ehangu'r rhaglen Contract Ieuencid ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed. Bydd yn sicrhau bod y cymorth a'r her sydd eu hangen arnynt ar gael pan fyddant yn cael eu rhyddhau er mwyn camu ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth gyda hyfforddiant. Fodd bynnag, rhaid i'r sefydliadau caethiwed eu hunain gyfrannu at yr ymdrech hon cyn eu rhyddhau.
31. Mae gweithwyr proffesiynol ymroddedig ym mhob sector yn gweithio'n galed ac yn datblygu arferion medrus, a rhaid i ni fanteisio ar hynny. Ond os ydym am fanteisio ar gyfnod mewn caethiwed er mwyn rhoi pobl ifanc yn ôl ar y llwybr cywir, mae angen system gyfan arnom sy'n darparu addysg ddwys yn ystod cyfnod mewn caethiwed, yn hytrach na threfn lle mae'r addysg yn dod yn ail.

Lleihau costau

32. Gan gofio bod y canlyniadau mor siomedig, mae costau caethiwed pobl ifanc yn llawer rhy uchel. Yn 2012/13, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi pennu cyllideb o £245m i'w wario ar gomisiynu'r ystâd ddiogel i bobl ifanc. Mae hyn yn gyfystyr â chost gyfartalog o bron £100,000 am le unigol y flwyddyn - llawer uwch na chost gyfartalog lle ar draws holl ystâd y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS) sy'n £38,000 y flwyddyn^{vii} - ac mewn rhai

^{vii} Y prif wahaniaethau rhwng cost gyfartalog pob lle unigol mewn sefydliadau caethiwed pobl ifanc (£100,000) a'r pris cyfartalog am le yn ystâd NOMS (£38,000) yw:

- a) Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn cyfrifo pris cyfartalog am le unigol y flwyddyn, yn seiliedig ar ddyraniadau cyllideb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ar gyfer y gwasanaethau hynny mae'n gyfrifol am eu comisiynu ar gyfer pobl ifanc (y flwyddyn olaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer yw 2012/13). Mae NOMS yn cyfrifo'r costau am garchardai gan ddefnyddio gwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (2011/12 yw'r flwyddyn olaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer) ar gyfer holl wariant NOMS.

amgylchiadau rydym yn talu dros £200,000 y flwyddyn. Mewn cyfnod o her ariannol sylweddol, ac yn wyneb canlyniadau mor wael, mae'n rhaid i bethau newid.

33. Rydym wedi bod yn gweithio i yrru arbedion effeithlonrwydd ar draws y system cyfiawnder troseddol, ac yn disgwyl lleihau cyfanswm costau'r ystâd ddiogel i bobl ifanc erbyn 2014/15. Serch hynny, credwn, drwy gymryd agwedd wahanol at drefniadau caethiwed pobl ifanc, fod cyfle gwirioneddol i yrru costau i lawr yn sylweddol eto, cyflawni gwell canlyniadau i bobl ifanc a lleihau aildroseddu ar yr un pryd.

Cyfle i newid

34. Felly, mae yna achos cryf dros newid. Mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi dechrau ar raglen ddiwygio radical ym maes addysg, lles ac adsefydlu troseddwr sy'n oedolion. Mae'r cynlluniau diwygio hyn yn canolbwyntio ar leihau costau drwy gystadleuaeth, annog arloesedd drwy wahodd darparwyr amrywiol, a gyrru arbedion effeithlonrwydd drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau.
35. Mae'r ystâd ddiogel i bobl ifanc wedi datblygu dros y 40 mlynedd diwethaf gan greu casgliad cymhleth o sefydliadau gyda gwasanaethau a safonau gwahanol, ac yn aml nid yw'r ddarpariaeth ddaearyddol yn cyfateb â'r galw. Mae llawer o bobl yn y system yn gweithio'n galed i yrru gwelliannau gyda rhai pobl ifanc heriol iawn, ond er gwaethaf y gwariant amrywiol a'r gwariant eithriadol o uchel, mae'r canlyniadau o safbwynt aildroseddu yn dal yn annerbyniol. Mae'r sefyllfa fel y mae hi yn wahanol iawn i'r sefyllfa y byddem yn ei chynllunio heddiw.
36. Mae contractau presennol llawer o'r Canolfannau Hyfforddi Diogel a'r Cartrefi Diogel i Blant, yn ogystal â'r ddarpariaeth addysg yn y Sefydliadau Troseddwr Ifanc yn y sector cyhoeddus, ar fin dod i ben yn ystod 2013 a 2014. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i addasu capasiti'r ystâd ddiogel i bobl ifanc er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r galw. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn golygu bod nawr yn amser da i gymryd golwg o'r newydd ar ein hystâd bresennol ac i geisio ystod eang o safbwyntiau ar sut gallwn sicrhau bod caethiwed yn cyfrannu at ostwng cyfraddau aildroseddu, at well canlyniadau i bobl ifanc, ac at well gwerth am arian i'r trethdalwr. Mae gennym gyfle prin i ystyried dull gweithredu newydd a all drawsnewid y sefyllfa, a bydd yr ymgynghoriad hwn yn profi'r awydd a'r syniadau angenrheidiol i gyflawni newid gwirioneddol. Mae angen i ni gyflawni hyn mewn modd fforddiadwy yng nghyd-destun ymrwymiad y Weinyddiaeth

b) Mae NOMS yn cyhoeddi pris cyfartalog fesul lle unigol ar draws holl ystâd NOMS. Yn 2011/12, roedd y ffigur hwn yn £38,000. Mae hwn yn cynnwys costau gwariant mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc o dan 18 oed ac nid yw'n cynnwys costau addysg. Mae costau'r ystâd ddiogel i bobl ifanc yn cynnwys costau addysg. Ceir dadansoddiad o'r gost gyfartalog am le unigol fesul sefydliad yn: <http://www.justice.gov.uk/downloads/statistics/prison-probation/probation-workforce-stats/prison-costs-tables-11-12.xls>. Dylech nodi, pan fo carchar yn cyflawni mwy nag un swyddogaeth, mae NOMS yn gosod y carchar hwnnw mewn categori sy'n disgrifio'i brif swyddogaeth.

Cyfiawnder i gyflawni arbedion blynyddol o dros £2 biliwn erbyn 2014/15, ac wrth edrych ymlaen at yr Adolygiad nesaf o Wariant.

5. Ein gweledigaeth ar gyfer diwygio

Diwygio ym maes addysg - y sail i'n gweledigaeth ar gyfer newid

37. Drwy roi lle amlwg i addysg yn ein cynigion i ddiwygio trefniadau caethiwed pobl ifanc, rydym yn gweithio yng nghyd-destun newidiadau radical yn y ffordd y caiff addysg ei ddarparu i bob person ifanc.
38. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Llywodraeth wedi galluogi mwy o ysgolion nag erioed i ddod yn Academiâu, gan sicrhau gwelliannau mewn safonau sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a gweddnewid rhai o'r ysgolion uwchradd a oedd yn perfformio gwaethaf yn y wlad. Mae ysgolion a fu unwaith yn ysgolion o anobaith, gyda dyheadau difrifol o isel, ymddygiad gwael a diwylliant o fethiant, erbyn hyn yn ganolfannau rhagoriaeth ac yn beiriannau ar gyfer symudedd cymdeithasol.
39. Yn 2010, roedd y Llywodraeth wedi ehangu'r rhaglen Academiâu i alluogi creu Ysgolion Rhydd, gan roi cyfle i newydd ddyfodiaid ym maes darparu addysg mewn ardaloedd lle'r oedd rhieni'n anfodlon â'r hyn oedd ar gael. Mae Ysgolion Rhydd yn ysgolion di-elw, annibynnol, a gaiff eu hariannu gan y wladwriaeth, a sefydlwyd fel ymateb i alw gwirioneddol mewn ardal leol am well dewis o addysg. Mae'r ysgolion hyn yn ffrwyth gweledigaeth unigryw ystod eang o bobl - gan gynnwys elusennau, prifysgolion, busnesau, grwpiau addysg, athrawon â gweledigaeth a rhieni ymroddedig - i wneud gwahaniaeth i'r sefyllfa addysg. Mae Ysgolion Rhydd yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr fod yn arloesol ac i deilwra eu cwricwlwm a'u dulliau ar gyfer anghenion penodol eu disgyblion. Rhaid iddynt hefyd gyflwyno achos ariannol hyfyw am gyllid a chyflawni canlyniadau o ansawdd da. Rhaid i drefniadau caethiwed pobl ifanc ddysgu o'r newid hwn.
40. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyflwyno diwygiadau mawr i'r cwricwlwm 14-16 ac 16-19. Mae pobl ifanc 14-16 yn canolbwyntio ar y craidd dysgu a sgiliau craidd (mathemateg a Saesneg yn benodol), TGAU a nifer gyfyngedig o gymwysterau 'gwerthfawr'. O fis Medi 2013 ymlaen, caiff rhaglenni astudio 16-19 eu cyflwyno. Bydd pob person ifanc sydd heb gael Gradd C neu uwch mewn TGAU mathemateg a Saesneg yn parhau i astudio'r pynciau hynny ôl-16. Byddant hefyd yn cael cyfle i ddilyn rhaglenni astudio sydd naill ai'n cyfuno cymwysterau academaidd neu alwedigaethol mwy, neu gyfnod estynedig o brofiad gwaith sy'n canolbwyntio ar nodau addysgol neu gyflogaeth.
41. Ar gyfer y rheini sy'n methu neu sy'n gwrthod cymryd rhan mewn addysg prif ffrwd, mae Deddf Addysg 2011 yn caniatáu ar gyfer sefydlu Ysgolion Rhydd gyda Darpariaeth Amgen. Ym mis Medi 2012, agorwyd y cyntaf o'r ysgolion hyn, gan sicrhau bod y bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn gallu cael budd o'r dulliau newydd ac arloesol mewn addysg. Mae diwygiadau uchelgeisiol hefyd ar waith i wella'r canlyniadau i bobl ifanc ag anghenion

addysgol arbennig. Gyda chyfran uchel o'r bobl ifanc mewn caethiwed wedi cael eu heithrio o'r ysgol ar ryw bwynt⁶ neu fod ganddynt anghenion addysgol arbennig,⁵ yr her i ni yw sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar y cymorth a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y diwygiadau ehangach hyn, yn ogystal â wynebu canlyniadau eu hymddygiad troseddol.

42. Gwnaethpwyd argymhellion yn yr adolygiad o Ddarpariaeth Amgen gan Charlie Taylor¹⁷, cyn ymgynghorydd arbenigol y Llywodraeth ar ymddygiad, yn ymwneud â gwella'r canlyniadau i blant sydd y tu allan i addysg prif ffrwd, o ganlyniad i gael eu heithrio, anghenion iechyd neu resymau eraill. Mae'r argymhellion hyn eisoes wedi cael eu rhoi ar waith, ac maent yn cynnwys mesurau i wella ansawdd y dysgu mewn darpariaeth amgen, dileu biwrocratiaeth sy'n atal disgyblion rhag aros yn y ddarpariaeth fwyaf priodol, a chyhoeddi canllawiau sydd, am y tro cyntaf, yn egluro'r safonau disgwylidig. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi annog dulliau gweithredu arloesol ehangach i godi safonau ar gyfer y disgyblion hyn, gan gynnwys defnyddio darpariaeth gydag ethos milwrol. Pwynt cychwyn Charlie Taylor oedd y dylai'r ddarpariaeth i ddisgyblion mewn darpariaeth amgen, gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi'u heithrio, ganolbwyntio ar sicrhau addysg o ansawdd uchel i *bob* disgybl a gwerth gorau am arian cyhoeddus - yn union yr un peth ag mewn ysgolion prif ffrwd. Golyga hyn fod rhaid i'r ddarpariaeth ddiwallu anghenion disgyblion a rhoi addysg dda iddynt, a hynny i'r un graddau â'r brif ffrwd. Rhaid i ddarpariaeth addysg mewn trefniadau caethiwed arddel yr un pwynt cychwyn hwnnw.

Colegau Diogel: addysg mewn caethiwed

43. Ein gweledigaeth yw ystâd o 'Golegau Diogel' ar gyfer pobl ifanc. Bydd lle amlwg i addysg o fewn y cyfleusterau hyn, gan roi sgiliau, cymwysterau, hunan-barch a hunanddisgyblaeth i'r troseddwyr ifanc fel y gallant droi eu cefn ar droseddu am byth. Dylai pobl ifanc mewn Colegau Diogel fynd yn ôl allan i'r gymuned yn barod i ganolbwyntio ac ymgysylltu'n fwy â'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gwell addysg.
44. I gyflawni'r addysg ddwys hon ar y cyd â chyfnod mewn caethiwed, bydd angen i ni ddenu ystod amrywiol o ddarparwyr i'r farchnad, gan gyfuno arbenigedd addysgol a phrofiad diogelwch. Rydym yn cydnabod y bydd angen o bosib sefydlu partneriaethau strategol rhwng sefydliadau sy'n meddu ar arbenigedd gwahanol, a gallai gynnig cyfleoedd ar gyfer sefydlu mentrau cydfuddiannol newydd yn y sector cyhoeddus yn cynnwys staff sydd eisoes yn gweithio yn y sector. Rydym yn awyddus i glywed cynigion gan ystod mor eang o randdeiliaid â phosib er mwyn gwireddu'r cysyniad hwn o Golegau Diogel.

Teilwra addysg i bobl ifanc mewn caethiwed

45. Bydd sgiliau addysgol sylfaenol, fel llythrennedd a rhifedd, bob amser yn bwysig i arfogi pobl ifanc ar gyfer dysgu pellach neu gyflogaeth, ac rydym am weld pobl ifanc mewn caethiwed yn cyflawni yn y meysydd hyn. At hynny, efallai bydd gan rai lefelau uwch o addysg neu fod ganddynt gymwysterau eisoes a'u bod yn dymuno ennill rhagor. Bydd eraill wedi cael blas o fyd gwaith a byddent yn cael budd o ddatblygu sgiliau galwedigaethol, felly efallai byddai'n dda cael cysylltiadau rhwng darparwyr sefydliadau caethiwed a chyflogwyr. Bydd gan rai hefyd anghenion addysgol arbennig, anawsterau dysgu neu anabledau dysgu,^{viii} a bydd nifer ohonynt wedi cael Cynllun Addysg, lechyd neu Ofal cyn cael eu caethiwo. Rhaid darparu'n briodol ar gyfer eu hanghenion. Ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, rhaid i ni osod yr un disgwyliadau ag ar gyfer darpariaeth prif ffrwd.
46. Wrth i'r oedran ar gyfer cyfranogi mewn ysgolion gynyddu i 17 yn 2013 ac i 18 yn 2015, dylai darpariaeth ôl-16 hefyd adlewyrchu disgwyliadau a chyfleoedd darpariaeth prif ffrwd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cynnig rhaglen astudiaeth 16-19 i bob myfyriwr mewn caethiwed, gan gydnabod efallai bod rhai wedi dechrau ar gyrsiau yn y gymuned, ac mewn achosion eraill, bydd y cyrsiau'n cael eu cwblhau yn y gymuned ar ôl eu rhyddhau. Ni waeth am hynny, ni ddylai'r egwyddorion fod ddim gwahanol: ffocws clir ar amcanion cyflogaeth ac addysgol y myfyriwr, lefel o ddarpariaeth sy'n adlewyrchu ei allu, ffocws parhaus ar ddatblygu mathemateg a Saesneg, a chymysgedd o weithgareddau sy'n ymwneud â chymwysterau a heb fod yn ymwneud â chymwysterau.
47. O fewn yr amgylchedd caethiwed, efallai bydd y drefn a'r lle yn caniatáu ar gyfer addysg a dysgu mewn sawl ffurf wahanol. Gyda'r addysgu a'r cymorth cywir, efallai bydd rhai pobl ifanc yn ffynnu mewn ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, mae'n bosib na fydd dulliau traddodiadol yn gweithio, ac efallai y bydd gweithdai galwedigaethol yn sicrhau gwell canlyniadau. Weithiau gellir defnyddio cerddoriaeth a chwaraeon i wella dealltwriaeth o rifau, gwaith tîm a chyfathrebu. Hefyd, gall amser bwyd fod yn gyfle i ddysgu sgiliau arlwygo yn ogystal â sgiliau cymdeithasol. Serch hynny, rydym am weld strwythur a manylder yn yr addysg a ddarperir, gydag eglurder am ba sgiliau sy'n cael eu datblygu a pha gynnydd a wneir.
48. Rhaid i drefniadau caethiwed pobl ifanc hefyd ddarparu ar gyfer ystod oedran gyfan y bobl ifanc, hyd at 17 oed. Mae'r rhelyw ohonynt yn 16 a 17, ond mae rhai yn iau, ac mae lefelau'r aeddfedrwydd corfforol ac emosiynol yn amrywio'n fawr ym mhob oed. Mae rhai hefyd yn aros yn yr ystâd ddiogel i bobl ifanc pan fyddant yn cyrraedd 18 oed, oherwydd nid oes ganddynt lawer o amser ar ôl i'w gwblhau neu maent ar remand ac yn disgwyl gwrandawriad llys, ac mae hefyd yn gwneud synnwyr i osgoi tarfu ar bethau mewn cyfnod a all fod yn allweddol o ran eu galluogi i ysgwyddo

^{viii} Fel y gwelir yn y blwch 'Proffil y bobl ifanc sydd mewn caethiwed'.

cyfrifoldeb a newid. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Rydym am barhau â'r arfer hwnnw ac adeiladu arno.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

- (a) Beth yw'r ffordd orau o gael pobl ifanc mewn caethiwed i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant? Pa dystiolaeth sydd ar gael o ddulliau gweithredu gwahanol sy'n gweithio'n dda?
- (b) Sut byddech chi'n dosbarthu'r bobl ifanc mewn caethiwed er mwyn darparu addysg a hyfforddiant?
- (c) Beth yw'r ffordd orau o gael cydbwysedd addysgol mewn Colegau Diogel rhwng sgiliau sylfaenol (llythrennedd, rhifedd, ayb.), pynciau academaidd traddodiadol, dysgu galwedigaethol a sgiliau bywyd ehangach, fel hunan-barch a hunanreolaeth, cyfathrebu a gwaith tîm?
- (d) Beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pobl ifanc ag anableddau dysgu, anghenion addysgol arbennig neu anghenion iechyd meddwl, a sut gellid defnyddio Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol arbennig briodol ar waith?

Diwallu anghenion ehangach pobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth

49. Mae pobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth yn aml yn arddangos ystod o anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd^{5, 6, 7} sy'n rhaid eu hystyried wrth gynllunio'r addysg ar eu cyfer, ac wrth ei ddarparu. Hefyd, bydd rhai ohonynt yn blant sy'n derbyn gofal neu'n blant sydd wedi gadael gofal. Mewn rhai achosion bydd rhaid bodloni'r anghenion hyn neu fynd i'r afael â'r problemau cyn y gall y person ifanc wneud cynnydd addysgol. Mae ein profiad o gyd-gomisiynu yn awgrymu bod yna gyfle i feithrin partneriaethau cryf gyda darparwyr iechyd a'r rheini sydd â phrofiad o wella sgiliau meddwl a lles emosiynol troseddwyr, dysgu pobl ifanc sut i ddelio â gwrthdaro, gwella cyfathrebu a meithrin hunan-barch a hunanddisgyblaeth. Os nad ydym yn mynd i'r afael â'r anghenion ehangach hyn, ochr yn ochr â'r addysg ar gyfer y rheini sydd ei angen, ni fyddwn yn gallu eu galluogi i weddnewid eu bywyd.
50. Bechgyn yw mwyafrif helaeth y boblogaeth mewn caethiwed, ond mae nifer fach o ferched yn yr ystâd hefyd. Yn debyg i'r bechgyn, mae gan y rhain lawer o anghenion cymhleth ac maent yn agored iawn i niwed. Ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd bod rhai agweddau o fod yn gaeth yn effeithio'n wahanol ar ddynion a merched^{5, 6} ac efallai bydd rhai o'r merched yn famau i blant ifanc. Mae'n hanfodol bod sefydliadau caethiwed yn diwallu eu hanghenion.
51. Bydd nifer o'r bobl ifanc o bob oed sydd mewn caethiwed o bosib yn aflonyddgar, mae rhai wedi eu cael yn euog o droseddau difrifol iawn, a gall rhai fod yn fygythiad i ddiogelwch eraill sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae ymarferwyr o rai sefydliadau diogel yn adrodd eu bod wedi gweld

nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n gysylltiedig â gangiau, gan gynnwys cysylltiadau â gangiau sy'n gwrthdaro o fewn sefydliad unigol, a gall hyn arwain at ragor o drais a bygythiadau. Rhaid i drefniadau caethiwed ddelio â'r holl heriau hyn, gan geisio atal problemau rhag dwysáu ac ymateb drwy ddefnyddio dulliau diogel o reoli ymddygiad lle bo angen. Mae hyn yn allweddol i greu amgylchedd lle gall pobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant.

52. Ceir grŵp o blant mewn caethiwed sydd wedi cael niwed eithriadol ac mae angen gwasanaethau cymorth arnynt sy'n cynnwys rhagor o ffocws ar ofal therapiwtig ochr yn ochr ag addysg ac iechyd. Ar hyn o bryd, mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn cael eu cadw'n gaeth mewn Cartrefi Diogel i Blant (weithiau ochr yn ochr â phlant gydag anghenion tebyg sydd wedi cael eu rhoi yno gan awdurdodau lleol am resymau lles) a Chanolfannau Hyfforddi Diogel, tra bo rhai eraill mewn unedau arbenigol yn yr ystâd. Wrth i ni roi ein gweledigaeth ar gyfer Colegau Diogel ar waith, byddwn yn sicrhau bod darpariaeth arbenigol ar wahân yn dal i fod ar gael ar gyfer y bobl ifanc fwyaf trwblus ac agored i niwed, p'un ai os ydynt yn cael eu cadw'n gaeth neu fod angen y gofal hwn arnynt am resymau lles.
53. Rhaid i fodel y Coleg Diogel fanteisio ar waith a dysg rhai o'r ymarferwyr gorau, boed y rheini mewn sefydliadau caethiwed neu mewn gwasanaethau cymunedol, ac ar yr hyblygrwydd a'r arloesedd sydd eu hangen i ddarparu'n effeithiol ar gyfer pob grŵp o bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, er eu lles eu hunain ac er lles y cyhoedd.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

- (e) Beth fyddai'r ffordd orau o gadw pobl ifanc yn saff ac yn ddiogel yn eich model chi o Goleg Diogel?
- (f) Beth fyddai'r ffordd orau i ni fynd i'r afael â heriau penodol grŵp o bobl ifanc mewn caethiwed (fel y rhai ieuengaf, y rhai mwyaf agored i niwed, y rhai peryclaf, a'r rhai mwyaf aflonyddgar) a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu? A ellid rheoli'r grŵp hwn o fewn eich model o Goleg Diogel?
- (g) Beth yw'r gwasanaethau allweddol eraill y byddech chi'n eu darparu, neu'n sefydlu partneriaethau yn eu cylch, o fewn Coleg Diogel er mwyn cefnogi darpariaeth addysg o ansawdd uchel i bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth ac i'w hatal rhag troseddu ar ôl eu rhyddhau?
- (h) Beth yw'r ffordd orau i ni ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal neu wedi gadael gofal ac sy'n cael eu cadw'n gaeth?
- (i) Pa sgiliau, cymwyseddau a phrofiad ddylai staff feddu arnynt i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth? Fel darparwr, sut byddech chi'n sicrhau bod eich gweithlu'n cyflawni'r gofynion hyn?

Cau'r bwllch rhwng caethiwed a'r gymuned

54. Bydd nifer gymharol fach o droseddwy'r ifanc yn cael dedfrydau hir mewn caethiwed, ond bydd y mwyafrif helaeth yn cael dedfrydau Gorchymyn Cadw a Hyfforddi byrrach. Tri mis yw'r amser cyfartalog a dreulir mewn caethiwed ar gyfer Gorchymyn Cadw a Hyfforddi.
55. Ni waeth pa mor hir mae person ifanc yn ei dreulio mewn caethiwed, rhaid integreiddio'r cyfnod hwnnw o'u bywyd gyda'r adeg ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, yn ogystal ag ystyried yr hyn a ddysgwyd a'r gwasanaethau a oedd wedi bod ar gael iddynt cyn hynny. Mae'n arbennig o bwysig bod cynnydd a gyflawnwyd mewn caethiwed yn ystod hanner cyntaf dedfryd y person ifanc yn cael ei gynnal ar y tu allan yn ystod yr ail hanner. Yn rhy aml o lawer, nid yw hyn yn digwydd oherwydd adsefydlu gwael. Mae angen i ni newid hyn.
56. Credwn fod cyfleoedd aruthrol ar gyfer arloesedd yn y cyfnod pontio rhwng caethiwed a'r gymuned. Mae'n bosib y byddai Coleg Diogel sy'n edrych i mewn ar y bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, ac yn edrych allan ar bobl ifanc yn y gymuned, yn cynnig cyfleoedd i rannu arbenigedd ac adnoddau. Gallai hefyd integreiddio'n well gyda gwaith y Timau Troseddwy'r Ifanc a sicrhau mwy o barhad rhwng caethiwed a'r gymuned - oherwydd nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. O gofio'r math o bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, efallai na fyddai cysylltiadau uniongyrchol ag ysgolion prif ffrwd yn briodol, ond efallai bod yna botensial ar gyfer archwilio modelau sy'n debyg i'r Unedau Cyfeirio Disgyblion gorau, neu bartneriaethau gyda darparwyr addysg amgen neu arbenigol yn y gymuned, gan gynnwys ysgolion preswyl. Neu, drwy ddefnyddio technegau dysgu dwys a thechnegau dysgu cyflym, mae'n bosib y gellid cyflawni cymwysterau trosglwyddadwy sy'n uniongyrchol gysylltiedig â lle mewn coleg lleol neu fel prentis ar ôl rhyddhau.
57. I lawer o droseddwy'r ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, dyma'r tro cyntaf iddynt gael profiad o'r ffiniau y mae'r rhan fwyaf ohonom wedi'u cymryd yn ganiataol ers ein plentyndod cynnar. Mae'n debyg iawn bod cael penrhyddid o'r ffiniau hyn yn syth ar ôl eu rhyddhau yn cyfrannu at ail-droseddu cynnar. Felly, mae cael rhywfaint o barhad mewn amgylchedd strwythuredig, yn ogystal ag mewn darpariaeth addysg, yn bwysig oherwydd bydd fwy na thebyg yn atal pobl ifanc rhag cael eu paratoi i fethu pan fydd eu cyfnod o gaethiwed yn dod i ben. Mae gan deuluoedd a gofaluwr rôl bwysig ac adeiladol yn y fan hon, boed hynny'n ystod y cyfnod y mae'r person ifanc yn cael ei gadw'n gaeth neu wrth ei gefnogi ar ôl iddo gael ei ryddhau.
58. Pan fydd troseddwy'r ifanc yn gymwys i gael eu rhyddhau, gall technolegau newydd fel monitro electronig GPS helpu i ddarparu strwythur a chymhelliant i hybu a chynnal y broses adsefydlu. Gall cyfleusterau preswyl sydd heb eu diogelu, wedi'u lleoli ar yr un safle â Cholegau Diogel, hefyd chwarae rôl. Os caiff syniadau fforddiadwy ac ymarferol bosib eu cyflwyno sy'n cydnabod manteision posib trefniadau pontio graddol i'r gymuned, byddai gennym ddiddordeb mewn ymchwilio iddynt.

59. Rydym yn barod i ystyried newidiadau i'r ffordd y caiff y ddedfryd Gorchymyn Cadw a Hyfforddi ei gweithredu, yn enwedig os nad yw'n ddigon hyblyg i gyflawni cynigion addawol a meithrin cysylltiadau cryfach rhwng caethiwed a darpariaeth yn y gymuned. Yn benodol, rydym am glywed eich barn am sut mae gwahanol gyfnodau o amser mewn caethiwed yn effeithio ar y canlyniadau addysg a hyfforddiant y gellir eu cyflawni gyda phobl ifanc, a sut gall cysylltiadau gyda darpariaeth addysg newydd neu bresennol yn y gymuned esgor ar gyfleoedd i barhau â'r cynnydd a ddechreuwyd mewn caethiwed. Efallai y gellir creu cysylltiadau gyda darparwyr sydd eisoes yn cyflenwi gwasanaethau i awdurdodau lleol.
60. Ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n cael eu rhoi mewn caethiwed, rhaid i ni ddefnyddio'r cyfle hwn i gyflawni newid. Ond mae'r amser a dreulir y tu allan i gaethiwed hefyd yn allweddol os ydym am gael effaith wirioneddol. Y tu mewn neu'r tu allan, gall person ifanc gael gafael ar ystod eang o wasanaethau a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywyd. Ond yn rhy aml o lawer, nid ydym yn creu'r cymhellion cywir i gyflawni cysylltiadau digonol rhyngddynt, ac nid yw pobl ifanc bob amser yn cael y cymorth allweddol sydd ei angen arnynt i fynd yn ôl i'r gymuned yn llwyddiannus. Rhaid i ni gael y cydbwysedd mwyaf effeithiol rhwng cyflawni amcanion cenedlaethol - sef gwella addysg a chanlyniadau aildroseddu gan leihau'r costau a chwrdd â'r galw - ac integreiddio gyda'r gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau ehangach presennol yn lleol. Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar greu'r cymhellion a'r trefniadau atebolrwydd cywir ar gyfer llywodraeth ganolog, darparwyr sefydliadau caethiwed, Timau Troseddwyd Ifanc a gwasanaethau plant, yn ogystal â'r ystod ehangach o bartneriaid lleol, er mwyn cyflawni hyn.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

(j) Sut byddai eich model o Goleg Diogel yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael caethiwed i gael lleoliadau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau a sut byddai'n eu cefnogi i gynnal yr ymgysylltiad hwn?

(k) Yn fwy cyffredinol, sut byddai eich model o Goleg Diogel yn cefnogi rhagor o gydweithio rhwng caethiwed a gwasanaethau yn y gymuned neu ragor o integreiddio rhyngddynt?

(l) Pa gyfle sydd yna i barhau â'r ddarpariaeth addysg mewn Coleg Diogel ar ôl i berson ifanc gael ei ryddhau o gaethiwed, ac a yw'r ddeddfwriaeth a'r fframwaith polisi presennol yn cynnig digon o hyblygrwydd?

(m) Faint o amser sydd ei angen i gyflawni cynnydd gweladwy gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, a rhwng caethiwed a'r gymuned?

(n) Pa gymhellion neu drefniadau atebolrwydd y gellid eu rhoi ar waith i annog darparwyr caethiwed a gwasanaethau yn y gymuned i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl i berson ifanc gael ei roi mewn caethiwed, gyda'r nod o sicrhau gwell canlyniadau am gyfnod hirach?

(o) Sut gallwn gynllunio ein dull gweithredu i sicrhau bod yr ystod ehangaf o ddarparwyr gyda'r profiad perthnasol yn gallu cymryd rhan?

Yr amgylchedd ffisegol a chwrdd â'r galw

61. Caiff darparwyr a rhanddeiliaid eu hannog i ystyried yr amgylchedd ffisegol mwyaf priodol ar gyfer darparu addysg ddwys ar y cyd â chyfnod mewn caethiwed er mwyn gostwng lefelau aildroseddu, amddiffyn y cyhoedd, a lleihau costau.
62. Ni fyddwn yn anghofio mai cosb yw dedfryd o gaethiwed - ac, yn aml, mae'n hanfodol er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Dylai'r amgylchedd ffisegol a'r drefn adlewyrchu hynny, a rhaid cael lefelau priodol o ddiogelwch. Fodd bynnag, rydym hefyd yn delio â phobl ifanc sydd efallai'n agored i niwed ac mae ganddynt broblemau cymhleth yn aml, felly ni ddylai'r amgylchedd fod yn fygythiol a rhaid iddo fod yn addas i sicrhau addysg ac adsefydlu effeithiol.
63. Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ystâd sylweddol o sefydliadau caethiwed pobl ifanc, sef 11 Sefydliad Troseddwyr Ifanc o dan 18 oed^{ix} a phedair Canolfan Hyfforddi Ddiogel. At hynny, mae gan awdurdodau lleol rwydwaith o Gartrefi Diogel i Blant. Byddem yn awyddus i glywed sut byddai darparwyr yn defnyddio neu'n addasu'r cyfleusterau hyn wrth ddatblygu eu cynnig am Goleg Diogel. Yn yr un modd, os yw darparwyr yn teimlo bod eu gweledigaeth o Goleg Diogel yn gofyn am amgylchedd

^{ix} Bydd y nifer hon yn gostwng i 10 STI pan fydd STI Ashfield yn cael ei newid i fod yn garchar i oedolion, fel y cyhoeddwyd ar 10 Ionawr 2013.

ffisegol gwahanol iawn, rydym yn cadw meddwl agored ac yn barod i wrando ar sut beth fyddai hyn, sut gellid ei ddarparu ac amcan o'r gost.

64. Mae ystâd y sefydliadau caethiwed yn gwasanaethu Cymru a Lloegr i gyd, a byddai angen i rwydwaith o Golegau Diogel gwrdd â'r galw cyffredinol am sefydliadau caethiwed. Rhaid iddo hefyd gydnabod y galw dwys mewn ardaloedd penodol (Llundain, Gorllewin Canoldir Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr, a Swydd Efrog²) a'r angen i wasanaethu rhanbarthau Cymru a Lloegr yn effeithiol.
65. Ceir rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod perthynas gefnogol a chadarnhaol gyda'r teulu'n gallu helpu rhai troseddwy'r i ymwrthod â throseddu eto¹³. Yn yr un modd, i rai pobl ifanc mae perthynas â'r teulu a rhwydweithiau cymorth ehangach yn eu milltir sgwâr yn allweddol i gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol mewn caethiwed ac at adsefydlu'n effeithiol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau a byw bywyd sy'n parchu'r gyfraith. Rhaid i ni ddarganfod ffyrdd o gynnal y cysylltiadau hyn, ond wrth i'r boblogaeth o bobl ifanc mewn caethiwed ostwng, mae cynnal yn effeithiol ystâd sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr i gyd yn dipyn o her, a bydd yn parhau i fod yn her. Wedi dweud hynny, i rai troseddwy'r ifanc, mae cyfnod i ffwrdd o ddylanwadau drwg yn gallu bod yn allweddol i gyflawni newid parhaol. Felly, caiff darparwyr eu hannog i ddarganfod dulliau llawn dychymyg o oresgyn y materion hyn sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, yn ogystal ag ystyried effaith arbedion maint ar leihau costau.
66. Wrth ymateb i'r her hon, bydd angen i ni ystyried y sefyllfa wahanol sy'n bodoli yng Nghymru, lle mae darpariaeth addysg a rhan fwyaf y gwasanaethau plant sy'n adsefydlu pobl ifanc a darparu cymorth parhaus iddynt wedi'u datganoli.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

- (p) Faint o bobl ifanc y dylid eu cadw mewn un Coleg Diogel?
- (q) Ymhle y dylid lleoli Colegau Diogel, a sut gallai rhwydwaith o sefydliadau o'r fath sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr gael ei strwythuro? Sut byddech chi'n rheoli'r effaith y gallai hyn ei chael ar gysylltiadau â theulu a'r gymuned?
- (r) Pa amgylchedd ffisegol fyddai ei angen? Sut ac i ba raddau y gellid rhoi model o'r fath ar waith o fewn yr ystâd ddiogel bresennol i bobl ifanc?
- (s) Beth yw'r ffyrdd allweddol o ostwng costau darparu caethiwed i bobl ifanc, gan gydnabod y pwysau ar arian cyhoeddus a'r angen i wneud arbedion sylweddol?
- (t) Os oes gennych fodel mewn golwg, a allwch amcangyfrif beth fyddai'r gost o (i) ei sefydlu a'i baratoi ar gyfer agor, a (ii) ei weithredu?
- (u) Oni all yr ystâd ddiogel bresennol i bobl ifanc gyflawni'r amgylchedd ffisegol sydd ei angen ar y model sydd gennych chi mewn golwg, a allwch roi amcan o'r costau ar gyfer cael gafael ar gyfleusterau newydd, a sut gellid ariannu hynny?

Canolbwyntio ar ganlyniadau

67. Rydym yn glir bod angen i sefydliadau caethiwed pobl ifanc wneud pethau'n wahanol os yw troseddwr ifanc am ddysgu sut i droi dalen newydd a gwella eu canlyniadau addysgol. Fodd bynnag, nid ydym am ddweud yn union sut gall darparwyr gyflawni hyn. Mae'r cynlluniau diwygio ym maes addysg wedi profi, os yw darparwyr yn cael penrhyddid a hyblygrwydd i ddatblygu dulliau gweithredu sydd wedi'u teilwra'n arbennig i'r plant a fydd yn elwa o'r gwasanaeth, bydd hynny'n arwain at arloesedd a gwell canlyniadau. Rydym am feithrin yr un ffyrdd radical o feddwl ymysg darparwyr a rhanddeiliaid mewn cysylltiad â sefydliadau caethiwed i bobl ifanc.

68. Yn ein cynlluniau diwygio ym maes adsefydlu oedolion, ceir ffocws cryf ar dalu darparwyr yn ôl canlyniadau. Rydym am ystyried sut gallwn ddefnyddio agweddau o'r dull hwnnw yma, er ein bod yn cydnabod bod rhai heriau yn hyn o beth, o ganlyniad i'r niferoedd bychain a phrinder data hanesyddol ar gyflawniad addysgol. Hoffem wahodd darparwyr i gyflwyno cynigion ar sut gallwn eu talu am gyflawni gwell canlyniadau addysgol. Efallai gallai hyn fod o ran cymwysterau syml, er enghraifft mewn llythrennedd neu rifedd, neu mewn sgiliau mwy galwedigaethol sy'n werthfawr i gyflogwyr, megis sgiliau arlwyio neu TGCh. Ym mhob achos, dylid anelu at gyflawni neu wneud cynnydd at yr un safonau a osodir ar gyfer disgyblion prif ffrwd. Rydym hefyd am ystyried sut orau i greu cymhellion ac i asesu cyfraniad darparwyr sefydliadau caethiwed at leihau aildroseddu. Gall yr amser mewn caethiwed fod yn brin, felly rydym yn cydnabod bod terfyn i'r hyn y gellir ei gyflawni. Ond rydym wir yn credu bod canolbwyntio ar ganlyniadau'n hanfodol i yrru newid ac rydym am glywed eich barn am yr hyn y gellid ei ddisgwyl, ei fesur a'i ddefnyddio fel sail ar gyfer rhaglen talu yn ôl canlyniadau.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

(v) Beth yw'r ffordd orau o fesur cynnydd addysgol gweladwy, gan gynnwys cymwysterau, ar gyfer segmentau gwahanol o'r bobl ifanc mewn caethiwed?

(w) Sut y gallai dull o gymhellion neu ddull o dalu yn ôl canlyniadau weithio mewn Coleg Diogel, a pha ganlyniadau y dylai'r dull hwn ganolbwyntio arnynt?

6. Helpu i gyflawni ein gweledigaeth

69. Mae ein gweledigaeth ar gyfer Colegau Diogel yn rhoi lle amlwg i addysg mewn sefydliadau caethiwed pobl ifanc. Byddant yn cosbi'r bobl ifanc ond hefyd yn eu dysgu i ysgwyddo cyfrifoldeb, i wella eu sgiliau, ac i fyw bywyd cynhyrchiol sy'n parchu'r gyfraith. Rydym wedi gosod yr amcan polisi hwn ac yn gwahodd syniadau ar sut i gyflawni'r weledigaeth hon.
70. Nid ydym wedi gosod llawer o bamedrau, ac mae digon o gyfle i fod yn arloesol. Rydym yn glir bod angen i ni wella addysg a chanlyniadau aildroseddu, yn ogystal â lleihau costau. Rydym yn glir hefyd bod angen i ni gadw pobl ifanc yn gaeth mewn amodau diogel ac mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu anghenion gwahanol o ran oedran, rhyw, addysg a sgiliau, a lles emosiynol a chorfforol. Ond rydym hefyd yn glir bod troseddwr ifanc yn cael eu dedfrydu i gaethiwed fel cosb ac er mwyn amddiffyn y cyhoedd, felly addysg mewn caethiwed yw'r hyn rydym yn dymuno ei gyflawni.
71. Rydym wedi amlinellu'r cyfleoedd a ddarperir gan y ddedfryd Gorchymyn Cadw a Hyfforddi, a'r pwys a roddwn i'r cyfnod pontio rhwng caethiwed a'r gymuned. Rydym wedi tynnu sylw at ein diddordeb mewn dulliau arloesol sy'n creu cysylltiad rhwng y ddarpariaeth ddiogel a heb fod yn ddiogel, a hynny gan gynnal y strwythur i'r bobl ifanc. Os bydd ymatebwyr yn dweud wrthym fod cyfyngiadau'r system cyfiawnder ieuencid a'r fframweithiau polisi a chyfreithiol yn rhwystrau rhag newid, byddwn yn edrych ar y rhain. Rhaid i ni bob amser ystyried beth sy'n fforddiadwy ac yn ymarferol bosib, gan gyflawni gwell canlyniadau a mwy o werth am arian i'r trethdalwyr.

Ar gyfer pawb sy'n ymateb

72. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn staff mewn sefydliadau caethiwed pobl ifanc, darparwyr gwasanaeth ym maes cyfiawnder, addysg, caethiwed a diogelwch, iechyd, gwasanaethau plant a'r gwasanaethau cymdeithasol ehangach, y farnwriaeth, mudiadau gwirfoddol a chymunedol, a phawb sydd â diddordeb mewn pobl ifanc. Rydym yn llunio fersiwn o'r ymgynghoriad hwn ar gyfer pobl ifanc, a fydd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a byddwn yn ceisio ymgynghori'n uniongyrchol â phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth. Rydym hefyd yn gwahodd aelodau'r cyhoedd i ymateb.
73. Rydym wedi rhestru isod holl gwestiynau'r ymgynghoriad y byddem yn falch o gael ymateb iddynt. Caiff y rhain hefyd eu cynnwys mewn blychau testun hwnt ac yma ym Mhennod 5 ('Ein gweledigaeth ar gyfer diwygio'). Mae croeso i bawb sy'n ymateb roi eu barn ar unrhyw rai o'r cwestiynau hyn. Rydym hefyd yn awyddus iawn i glywed gan ddarparwyr ynghylch sut byddech chi'n ein helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.

Darparwyr presennol a darparwyr posib

74. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod gan bob un o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gyfraniad pwysig i'w wneud at y drafodaeth ac at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Colegau Diogel. Byddem yn dymuno gweld ymateb darparwyr presennol a darpar-ddarparwyr i'r ymgynghoriad, gan ystyried sut gallai model o Goleg Diogel wasanaethu'r galw am gadw pobl ifanc yn gaeth yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys ymhle y dylid eu lleoli a maint delfrydol sefydliadau o'r fath.
75. Mae'n bosib y byddai rhai sefydliadau yn dewis llunio cynnig ar gyfer yr holl ystâd ddiogel i bobl ifanc, tra bydd eraill yn canolbwyntio'n unig ar un Coleg Diogel. Byddwn yn falch o gael ymatebion i'r naill sefyllfa a'r llall. Yn yr un modd, efallai bydd rhai yn dymuno cyflwyno syniadau ar un agwedd o'r ddarpariaeth. Bydd eraill yn teimlo y gallant (naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn partneriaeth) ddarparu pob agwedd ar y ddarpariaeth. Ac wrth feddwl am amgylchedd ffisegol Coleg Diogel, dylai'r ymatebion ddangos i ba raddau y byddai eu model yn defnyddio ein hystâd bresennol o sefydliadau caethiwed pobl ifanc (naill ai fel y mae ar hyn o bryd neu drwy ei haddasu rywfaint) neu gyfleusterau presennol eraill nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd at y diben hwn, neu a fydd angen cyfleusterau newydd a pha mor fforddiadwy fyddai hynny.
76. Yn ddelfrydol, byddem yn hoffi gweld partïon â diddordeb yn llunio cynigion o'u gweledigaeth nhw ar gyfer gweithredu Colegau Diogel. Efallai bydd rhai yn dewis gwneud hyn ar ffurf cynnig amlinellol sy'n ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad ac yn disgrifio:
- eu model nhw ar gyfer Coleg Diogel, neu'r gwasanaethau y byddent yn eu darparu mewn Coleg Diogel;
 - sut byddent yn gweithredu ein gweledigaeth;
 - y canlyniadau y byddent yn eu cyflawni; ac
 - amcangyfrifon dangosol a dros-dro yn nodi'r gost bosib.
77. Rydym yn barod i wrando ar ddulliau radical a gwahanol ar yr amod eu bod yn diwallu ein dwy her o wella canlyniadau (addysgol ac aildroseddu) a lleihau costau.
78. Os bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn dangos bod yna arloesedd a gallu yn y farchnad i wella canlyniadau a lleihau costau, yna byddwn yn addasu ein gweledigaeth ac yn ceisio symud yn gyflym i'r cam comisiynu a chystadlu ar gyfer math newydd o sefydliadau caethiwed pobl ifanc. Wrth wneud hynny, byddwn yn penderfynu ar raddfa a natur unrhyw gystadlaethau y byddem yn dymuno eu cynnal.
79. Ni fyddwn yn gallu trin unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyfrinachol, gan gynnwys y cynigion. Rydym yn cadw'r hawl i ddefnyddio unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd fel sail i'n gofynion ac i unrhyw gystadleuaeth yn y dyfodol.

7. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Pob cwestiwn yr ymgynghoriad – ar gyfer pob ymatebydd a darparwr

Teilwra addysg i bobl ifanc mewn caethiwed

- (a) Beth yw'r ffordd orau o gael pobl ifanc mewn caethiwed (ar ddedfryd neu ar remand) i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant? Pa dystiolaeth sydd ar gael o ddulliau gweithredu gwahanol sy'n gweithio'n dda?
- (b) Sut byddech chi'n dosbarthu'r bobl ifanc mewn caethiwed er mwyn darparu addysg a hyfforddiant?
- (c) Beth yw'r ffordd orau o gael cydbwysedd addysgol mewn Colegau Diogel rhwng sgiliau sylfaenol (llythrennedd, rhifedd, ayb.), pynciau academaidd traddodiadol, dysgu galwedigaethol a sgiliau bywyd ehangach, fel hunan-barch a hunanreolaeth, cyfathrebu a gwaith tîm?
- (d) Beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pobl ifanc ag anabledau dysgu, anghenion addysgol arbennig neu anghenion iechyd meddwl, a sut gellid defnyddio Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol arbennig briodol ar waith?

Diwallu anghenion ehangach pobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth

- (e) Beth fyddai'r ffordd orau o gadw pobl ifanc yn saff ac yn ddiogel yn eich model chi o Goleg Diogel?
- (f) Beth fyddai'r ffordd orau i ni fynd i'r afael â heriau penodol grŵp o bobl ifanc mewn caethiwed (fel y rhai ieuengaf, y rhai mwyaf agored i niwed, y rhai peryclaf, a'r rhai mwyaf aflonyddgar) a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu? A ellid rheoli'r grŵp hwn o fewn eich model o Goleg Diogel?
- (g) Beth yw'r gwasanaethau allweddol eraill y byddech chi'n eu darparu, neu'n sefydlu partneriaethau yn eu cylch, o fewn Coleg Diogel er mwyn cefnogi darpariaeth addysg o ansawdd uchel i bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth ac i'w hatal rhag troseddu ar ôl eu rhyddhau?
- (h) Beth yw'r ffordd orau i ni ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal neu wedi gadael gofal ac sy'n cael eu cadw'n gaeth?
- (i) Pa sgiliau, cymwyseddau a phrofiad ddylai staff feddu arnynt i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth? Fel darparwr, sut byddech chi'n sicrhau bod eich gweithlu'n cyflawni'r gofynion hyn?

Cau'r bwloch rhwng caethiwed a'r gymuned

- (j) Sut byddai eich model o Goleg Diogel yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael caethiwed i gael lleoliadau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar

ôl iddynt gael eu rhyddhau a sut byddai'n eu cefnogi i gynnal yr ymgysylltiad hwn?

- (k) Yn fwy cyffredinol, sut byddai eich model o Goleg Diogel yn cefnogi rhagor o gydweithio rhwng caethiwed a gwasanaethau yn y gymuned neu ragor o integreiddio rhyngddynt?
- (l) Pa gyfle sydd yna i barhau â'r ddarpariaeth addysg mewn Coleg Diogel ar ôl i berson ifanc gael ei ryddhau o gaethiwed, ac a yw'r ddeddfwriaeth a'r fframwaith polisi presennol yn cynnig digon o hyblygrwydd?
- (m) Faint o amser sydd ei angen i gyflawni cynnydd gweladwy gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth, a rhwng caethiwed a'r gymuned?
- (n) Pa gymhellion neu drefniadau atebolrwydd y gellid eu rhoi ar waith i annog darparwyr caethiwed a gwasanaethau yn y gymuned i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl i berson ifanc gael ei roi mewn caethiwed, gyda'r nod o sicrhau gwell canlyniadau am gyfnod hirach?
- (o) Sut gallwn gynllunio ein dull gweithredu i sicrhau bod yr ystod ehangaf o ddarparwyr gyda'r profiad perthnasol yn gallu cymryd rhan?

Yr amgylchedd ffisegol a chwrdd â'r galw

- (p) Faint o bobl ifanc y dylid eu cadw mewn un Coleg Diogel?
- (q) Ymhle y dylid lleoli Colegau Diogel, a sut gallai rhwydwaith o sefydliadau o'r fath sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr gael ei strwythuro? Sut byddech chi'n rheoli'r effaith y gallai hyn ei chael ar gysylltiadau â theulu a'r gymuned?
- (r) Pa amgylchedd ffisegol fyddai ei angen? Sut ac i ba raddau y gellid rhoi model o'r fath ar waith o fewn yr ystâd ddiogel bresennol i bobl ifanc?
- (s) Beth yw'r ffyrdd allweddol o ostwng costau darparu caethiwed i bobl ifanc, gan gydnabod y pwysau ar arian cyhoeddus a'r angen i wneud arbedion sylweddol?
- (t) Os oes gennych fodel mewn golwg, a allwch amcangyfrif beth fyddai'r gost o (i) ei sefydlu a'i baratoi ar gyfer agor, a (ii) ei weithredu?
- (u) Oni all yr ystâd ddiogel bresennol i bobl ifanc gyflawni'r amgylchedd ffisegol sydd ei angen ar y model sydd gennych chi mewn golwg, a allwch roi amcan o'r costau ar gyfer cael gafael ar gyfleusterau newydd, a sut gellid ariannu hynny?

Canolbwyntio ar ganlyniadau

- (v) Beth yw'r ffordd orau o fesur cynnydd addysgol gweladwy, gan gynnwys cymwysterau, ar gyfer segmentau gwahanol o'r bobl ifanc mewn caethiwed?
- (w) Sut y gallai dull o gymhellion neu ddull o dalu yn ôl canlyniadau weithio mewn Coleg Diogel, a pha ganlyniadau y dylai'r dull hwn ganolbwyntio arnynt?

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

- (x) Beth yw effeithiau tebygol ein cynigion ar grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig? Darparwch unrhyw enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

Sylwadau ychwanegol

- (y) A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar ein cynigion yn y ddogfen hon ar gyfer trawsnewid trefniadau caethiwed?

Dogfennau Cyfeirio

1. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013) *Crime in England and Wales, Year Ending September 2012. Statistical Bulletin*. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
2. Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid/ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013) *Youth Justice Statistics (2011/12) England and Wales*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid/ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
3. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013) *Proven Re-offending Statistics Quarterly Bulletin April 2010 to March 2011, England and Wales*. Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.
4. Education Funding Agency (2012) Internal analysis of admin data, unpublished analysis.
5. Jacobson, J., Bhardwa, B., Gyateng, T., Hunter, G., & Hough, M. (2010) *Punishing Disadvantage: a profile of children in custody*. Llundain: Prison Reform Trust.
6. Murray, R. (2012) *Children and Young People in Custody 2011/12: An analysis of the experiences of 15-18-year-olds in prison*. Llundain: Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi/Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.
7. Hughes, N., Williams, H., Chitsabesan, P., Davies, R., & Mounce, L. (2012) *Nobody made the connection: The prevalence of neurodisability in young people who offend*. Llundain: Comisiynydd y Plant.
8. **Galahad SMS Ltd** (2004) *Substance misuse and juvenile offenders*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.
9. Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2009) *Substance Misuse Services in the Secure Estate*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.
10. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) (June 2011) *The cost of a cohort of young offenders to the youth justice system in England and Wales, Technical Paper*. Llundain: Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.
11. Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2006) *Barriers to engagement in education, training and employment*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.
12. Williams, K., Papadopoulou, V., Booth, N. (2012) *Prisoners' childhood and family backgrounds: Results from the Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR) longitudinal cohort study of prisoners*. Llundain: Ministry of Justice Ministry, Research Series 4/12.
13. Communities That Care (2005) *Risk and protective factors*. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.

14. Farrington D, & Welsh, B (2007) *Saving children from a life of crime*. Efrog Newydd: Oxford University Press.
15. Ofsted (2010) *Transition through detention and custody*. Manceinion: Ofsted.
16. Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2011) *Resettlement provision for children and young people: Accommodation and education, training and employment*. Llundain: Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.
17. Taylor, C (2012) *Improving Alternative Provision*. Llundain: Yr Adran Addysg.



Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa (TSO) ac mae ar gael:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Gallwch archebu drwy ffonio'r Llinell Seneddol – Lo-Call ar 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

Siop Dau Dŷ'r Senedd

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: shop@parliament.uk

Y Rhyngrwyd <http://www.shop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill

ISBN 978-0-10-185642-3



9 780101 856423